ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	**Polisi Adborth Athrofa Padarn Sant**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Gareth Longden, Cofrestrydd
Rhif y fersiwn:	Fersiwn 2
Statws y ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo:	18 Mehefin 2022
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol
Dyddiad rhoi mewn grym:	June 2022
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	June 2025
Y fersiwn a ddisodlir:	1
Dogfennau cysylltiedig:	

Hanes y ddogfen

Fersiwn	**Dyddiad**	**Awdur**	**Nodiadau ar yr adolygiadau**
Fersiwn 1		Gareth Longden, Cofrestrydd	Y drafft cyntaf

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Casglu adborth
4. Ymateb i adborth
5. Cymeradwyo ac adolygu'r polisi

2. Cyflwyniad

Ym Mhadarn Sant rydym yn ceisio gwella ansawdd pob agwedd ar yr Athrofa yn barhaus er mwyn iddi allu bodloni'i nod o fod yn gymuned o ffurfiant ar gyfer cenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru. Cydnabyddir y gall adborth gan bobl sy'n gysylltiedig â Phadarn Sant – boed yn ddisgybl, yn ddysgwr, yn ymgeisydd, yn hwylusydd, yn aelod o staff, neu'n Esgob – gynorthwyo yn y broses o wella ansawdd ein gwaith a phrofiad y rhai sy'n gweithio gyda ni.

Gellir defnyddio adborth i wneud y canlynol:

- Gwella ffurfiant ar gyfer ein hymgeiswyr
- Gwella safonau academaidd
- Cyfoethogi profiad pobl o ryngweithio gydag Athrofa Padarn Sant
- Gwella effeithlonrwydd ein systemau
- Gwella'r amgylcheddau lle'r ydym yn gweithio ac yn astudio
- Cyfoethogi ymgysylltiad myfyrwyr
- Cyfoethogi datblygiad staff
- Gwella'r modd y caiff Athrofa Padarn Sant ei llywodraethu a'i rheoli

I'r perwyl hwn, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- Casglu adborth – gan bawb y mae Padarn Sant yn dylanwadu arnynt, neu bawb sy'n dylanwadu ar Badarn Sant, mewn modd sensitif, ymarferol a phriodol.
- Gwerthuso adborth – asesu'n barhaus sut gallwn newid a gwella.
- Gweithredu ar sail adborth – ymateb mewn ffyrdd a fydd yn esgor ar newid cadarnhaol.
- Ymgorffori yr egwyddor o adborth – i sicrhau bod adborth yn ganolog i bopeth a wnawn, a'n bod yn ymgysylltu ag adborth fel unigolion ac ar y cyd.
- Cyfathrebu pa newidiadau sydd wedi eu wgneud o ganlyniad i adborth.

3. Casglu adborth

Gellir casglu adborth mewn modd ffurfiol ac anffurfiol; ac er y gellir defnyddio adborth at ddibenion gweithredol penodol, ei swyddogaeth bob amser fydd ein galluogi i wella'r hyn a wnawn. Gellir casglu adborth trwy gyfrwng ymarferion casglu penodol; yn anffurfiol wrth sgwrsio; trwy feedback@stpadarns.ac.uk neu trwy gyfrwng eitemau wedi'u cofnodi mewn cyfarfodydd.

4. Ymateb i adborth

Bydd pob ardal ym Mhadarn Sant yn casglu adborth, yn gwerthuso'r adborth hwnnw ac yn ymateb i'r adborth. Bydd yr ymateb yn cael ei ddosbarthu i'r etholaeth sydd wedi cynhyrchu'r adborth; ar draws Padarn Sant, yn llorweddol ac yn fertigol, yn cynnwys y Pennaeth, Panel Cynghori Safonau Ansawdd a, lle y bo hynny'n briodol, ein partneriaid sefydliadol.

5. Cymeradwyo ac adolygu'r polisi

5.1 Bydd y polisi hwn, yn ogystal â'r polisïau, y gweithdrefnau a'r canllawiau eraill i gyd sy'n ymwneud â Phadarn Sant, ar gael i bawb, byddant yn cael eu monitro'n rheolaidd a byddant yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n gyfnodol.

5.2 Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y polisi hwn.

5.3 Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon yn yr adran i ddysgwyr ar MoodleVLE (Rhith-amgylchedd Dysgu) Padarn Sant ac ar wefan Athrofa Padarn Sant: www.stpadarns.ac.uk .

5.4 Gwneir pob ymdrech i ymateb i bob cais i ddarparu'r polisi hwn mewn fformat gwahanol.

5.5 Bydd y polisi hwn yn cael ei gynnwys mewn sesiynau sefydlu staff.